Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad Cydraddoldeb Cyflogwr

## 2024 – 2025

# Cynnwys

3 Rhagair

**Rhan 1: Ymwreiddio Cydraddoldeb a Chynhwysiant**

4 Cefndir
4 Cynllun Cydraddoldeb Strategol
4 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn Llywodraeth Cymru
5 Hyrwyddo Gwrth-hiliaeth
6 Y Model Cymdeithasol o Anabledd
7 Gwella Cynrychiolaeth yn y Gweithlu
8 Adduned Menywod yn y Gyfraith

**Rhan 2: Dysgu a Datblygu a'r Gymraeg**

9 Data Dysgu a Datblygu Craidd yn ôl Nodwedd Warchodedig
13 Sgiliau Cymraeg

**Rhan 3: Y Gweithlu a Recriwtio**

14 Cynrychiolaeth y Gweithlu ar 31 Mawrth 2025
18 Dynion a Menywod yn y Gweithlu
19 Bylchau Cyflog (Rhywedd, Anabledd, Ethnigrwydd a Chyfeiriadedd Rhywiol Lleiafrifol)
20 Gweithgarwch Recriwtio yn ôl Nodwedd Warchodedig (Allanol a Mewnol)

**Rhan 4: Cyflogwr Delfrydol**

28 Bod yn Gyflogwr Delfrydol
28 Achrediadau, Aelodaeth ac Addunedau Sefydliadol
29 Rhwydweithiau Staff
30 Partneriaeth Gymdeithasol
31 Ymgysylltu â Chyflogeion – Arolwg Pobl

**ATODIADAU**

33 **Atodiad A:** Cynrychiolaeth yn y Gweithle wedi'i dadgyfuno yn ôl Hil; Crefydd/Cred; Anabledd; Cyfeiriadedd Rhywiol a Statws Priodasol
35 **Atodiad B:** Ymadawyr yn ôl Nodwedd Warchodedig
38 **Atodiad C:** Data am Gwynion Cyflogaeth ac Achosion Disgyblu yn ôl Nodwedd Warchodedig
41 **Atodiad D:** Bylchau Cyflog – Rhywedd, Ethnigrwydd, Anabledd a Chyfeiriadedd Rhywiol
45 **Atodiad E:** Adduned Menywod yn y Gyfraith

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53871, ISBN Digidol 978-1-83745-296-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg



# Rhagair

**Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Cydraddoldeb Cyflogwr Blynyddol ar gyfer 2024 – 2025, sy'n amlinellu ein cynnydd tuag at greu gweithle sy'n fwy teg a chynhwysol. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi data manwl ar gyfansoddiad ein gweithlu, ein gwaith recriwtio, a gweithgareddau dysgu a datblygu. Mae hefyd yn tynnu sylw at ein bylchau cyflog, cynnydd o ran uchelgeisiau amrywiaeth, a mentrau allweddol a roddwyd ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant yn y sefydliad.**

Ein nod yw bod ein gweithlu yn adlewyrchu amrywiaeth Cymru a'n bod yn gyflogwr delfrydol lle gall pawb ffynnu. Drwy ddenu doniau a safbwyntiau amrywiol, gallwn ddatblygu polisïau sy'n gwasanaethu pob grŵp a chymuned yng Nghymru yn well.

Y flwyddyn hon, gostyngodd ein bwlch cyflog rhywedd i 4.73%, gwelliant o gymharu â 6.08% y flwyddyn ddiwethaf, a'r lefel isaf ers inni ddechrau adrodd ar hyn yn 2011. Rwy'n falch o'r cynnydd rydym wedi'i wneud i helpu menywod i gamu ymlaen yn eu gyrfa yn ein sefydliad, ac rydym yn ymrwymedig i adeiladu ar y momentwm cadarnhaol hwn a chyflawni ein nod o sicrhau cydraddoldeb cyflog rhywedd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod ein prosesau recriwtio a datblygu gyrfa yn fwy cynhwysol a chyfartal. Er bod yr ymdrechion hyn yn parhau, mae'r canlyniadau cychwynnol yn awgrymu bod ein newidiadau yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Gan edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod, rydym yn bwriadu gwneud gwelliannau pellach, y caiff pob un ohonynt eu llywio gan ein hegwyddor 'cynhwysiant yn ddiofyn'.

Mae partneriaeth gymdeithasol wrth wraidd ein sefydliad o hyd. Rydym yn cydweithio â'n hundebau llafur i sicrhau bod lleisiau eu haelodau yn cael eu clywed a'n bod yn gweithredu arnynt. Mae ein rhwydweithiau staff a'n Bwrdd Cysgodol yn parhau i chwarae rôl hollbwysig i sbarduno ein huchelgeisiau mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithle. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sy'n ymwneud â'n hundebau llafur, ein rhwydweithiau staff a'r Bwrdd Cysgodol am eu hymroddiad parhaus i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn lle tecach a mwy cynhwysol i weithio ynddo. Gyda'n gilydd, rydym yn gwneud cynnydd gwirioneddol i'n holl gydweithwyr.



**Dom Houlihan**

Cyfarwyddwr, Pobl a Lleoedd a Hyrwyddwr Cydraddoldeb Interim y Bwrdd

# Rhan 1:
# Ymwreiddio Cydraddoldeb A Chynhwysiant

## Cefndir i'r Fframwaith Cyfreithiol

Daeth Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 ('Rheoliadau 2011') i rym ar 6 Ebrill 2011 fel y gall dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan adran 149(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gael ei chyflawni'n well. Mae Rheoliadau 2011 yn gosod dyletswyddau penodol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r wybodaeth sydd ei hangen i gydymffurfio â rheoliad 9 o Reoliadau 2011 (casglu gwybodaeth am gyflogaeth). Mae'n ymwneud â chyflogeion, yn ogystal â'r rhai sydd wedi ceisio cyflogaeth yn y sefydliad. Mae'r wybodaeth a gasglwyd mewn perthynas â chyflogeion wedi cael ei rhannu'n is-gategorïau, yn ôl y nodweddion gwarchodedig a ddatganwyd ganddynt.

Diben casglu a chofnodi'r wybodaeth hon yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael trosolwg clir dros y materion cydraddoldeb a wyneba, ac y gall fonitro cynnydd a chyflwyno newid cadarnhaol er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i gydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

## Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029

Cyhoeddwyd Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025 – 2029 ym mis Mehefin 2025.

*Nod hirdymor Llywodraeth Cymru yw creu cenedl yn seiliedig ar gydraddoldeb, gwrth-hiliaeth a chynhwysiant, drwy gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r Cynllun yn ein helpu i gyflawni yn erbyn ein Hamcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol a'n nod hirdymor. Mae'n dwyn ynghyd ymrwymiadau cyfredol o ran cydraddoldebau a hawliau dynol i greu fframwaith cydlynol ac integredig, ac mae'n golygu y gellir cymryd camau sydd wedi'u teilwra a gaiff eu hysgogi gan Gynlluniau Gweithredu â ffocws penodol.*

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol a'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol ar gael yma: [Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 i 2029 [HTML] | LLYW.CYMRU]

Mae adran y Gweithlu o'r Cynllun yn nodi'n glir fod Llywodraeth Cymru, fel sefydliad, yn ceisio adlewyrchu amrywiaeth Cymru yn llawn ar bob lefel. Mae [Strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu: 2021 i 2026] Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn Llywodraeth Cymru

Mae hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithle yn flaenoriaeth allweddol - tasg a arweinir gan yr Ysgrifennydd Parhaol a Bwrdd Llywodraeth Cymru, ac a gefnogir gan y Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae aelodau'r Grŵp Llywio yn cynnwys Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd, Hyrwyddwyr Cydraddoldeb Grŵp yr Uwch Wasanaeth Sifil, Cadeiryddion Rhwydweithiau Staff, Hyrwyddwyr Cydraddoldeb Rhwydweithiau Staff, cynrychiolwyr undebau llafur a chydweithwyr Gwasanaethau Corfforaethol (Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi).

Mae'r Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cyfarfod bob chwarter i ddarparu sicrwydd, gwaith craffu a her mewn perthynas â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y gweithlu. Mae Cadeirydd y Grŵp yn rhoi diweddariadau bob chwe mis i Fwrdd Llywodraeth Cymru ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu. Mae'r Bwrdd Cysgodol yn parhau i roi sicrwydd o safbwynt cydraddoldeb i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod.

## Hyrwyddo Gwrth-hiliaeth

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn nodi gweledigaeth lle mae Llywodraeth Cymru a'r gwasanaethau cyhoeddus y mae'n eu hariannu yn wrth-hiliol, gyda diwylliant o ddim goddefgarwch at hiliaeth drwy'r sector cyhoeddus cyfan.

Ym mis Tachwedd 2024, cafodd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: Diweddariad 2024 ei gyhoeddi i adlewyrchu gwelliannau a chamau gweithredu newydd. Mae'r Bennod Arweinyddiaeth yn canolbwyntio ar Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru fel cyflogwr, a'i rôl fel arweinydd wrth gefnogi gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

Mae'r nodau ar gyfer y sefydliad yn cynnwys:

- Sicrhau bod gan bob Uwch-Was Sifil o leiaf un amcan perfformiad mesuradwy sy'n ymwneud â gwrth-hiliaeth.
- Gwella polisïau a phrosesau mewnol i'w gwneud yn haws i roi gwybod am achosion o hiliaeth.
- Adolygu pob agwedd ar brosesau recriwtio a dyrchafu i sicrhau eu bod yn wrth-hiliol ac yn gynhwysol.

Un o'r camau gweithredu pwysicaf i'r sefydliad oedd cynnal adolygiad annibynnol o'n polisïau a'n prosesau adnoddau dynol o safbwynt gwrth-hiliaeth.Yn gynnar yn 2024, cafodd ymgynghoriaeth allanol ei phenodi i arwain yr adolygiad. Am fwy na deuddeg mis, gwnaethant adolygu polisïau mewnol a dadansoddi data ar y gweithlu, cynnal cyfweliadau un i un â staff, hwyluso grwpiau ffocws, a chynnal arolwg cyfrinachol ar gyfer y staff i gyd.

Roedd yr adolygiad yn dal i fynd rhagddo ym mis Mawrth 2025. Mae gwybodaeth gynnar yn awgrymu er bod ymrwymiad sefydliadol cryf i hyrwyddo gwrth-hiliaeth, mae angen datblygu meysydd sylfaenol – fel arferion recriwtio, data ar y gweithlu a strwythurau llywodraethu – ymhellach er mwyn gallu gwneud cynnydd parhaus ac ystyrlon tuag at gynhwysiant llawn.

## Y Model Cymdeithasol o Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r model cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod pobl ag amhariadau yn cael eu hanablu gan rwystrau ffisegol a sefydliadol sy'n gyffredin mewn cymdeithas, sy'n atal pobl anabl rhag cael eu cynnwys a rhag cymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd.

Mae'r model cymdeithasol wedi'i ymwreiddio yn ein polisïau, ein prosesau a'n cwricwlwm dysgu a datblygu. Rydym yn parhau i wneud addasiadau i'n gweithle a'n harferion recriwtio er mwyn helpu pob cydweithiwr i berfformio ar ei orau, ac rydym yn parhau i weithio gyda'n cymuned o rwydweithiau staff a grwpiau ac undebau llafur i sicrhau bod eu dealltwriaeth a'u profiadau yn llywio ein penderfyniadau a'n camau gweithredu.

Fel tyst i'n hymrwymiad yn y maes hwn, eleni cafodd y sefydliad ei ailachredu fel Arweinydd Hyderus o ran Anabledd.

### Addasiadau Recriwtio

Dros y flwyddyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio datblygu ymhellach ein gwasanaeth Addasiadau Recriwtio sydd wedi ennill gwobrau gan CIPD. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cymorth ac addasiadau wedi'u teilwra i ymgeiswyr anabl sy'n gwneud cais i Lywodraeth Cymru neu sy'n ceisio datblygu eu gyrfa yn y sefydliad.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i gynyddu ei gyrhaeddiad, gyda mwy na chant o ymgeiswyr yn ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn. Roedd yr addasiadau yn cynnwys, er enghraifft, cwestiynau'n cael eu rhoi ymlaen llaw a mwy o amser mewn cyfweliadau. Yn ystod y flwyddyn, cafodd nifer o ymarferion peilot eu cynnal lle cafodd addasiadau eu safoni ar gyfer pob ymgeisydd, gan ein helpu i fabwysiadu'r model cymdeithasol o anabledd. Caiff canlyniadau'r ymgyrchoedd hyn eu gwerthuso wrth inni ystyried cyflwyno'r dull gweithredu hwn - gan gynnwys rhoi cwestiynau ymlaen llaw i bob ymgeisydd.



## Gwella Cynrychiolaeth yn y Gweithlu

Rydym yn ymrwymedig i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth hanesyddol staff anabl a staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ein gweithlu, a thangynrychiolaeth menywod mewn uwch-rolau arwain. Mae Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021-2026 yn pennu nodau uchelgeisiol:

**Recriwtio allanol:**

**20%** Erbyn 2026, rydym am i 20% o'r bobl a benodwn fod yn bobl anabl

**20%** Erbyn 2026, rydym am i 20% o'r bobl a benodwn ddod o leiafrif ethnig

**50%** Erbyn 2026, rydym am i fwy na 50% o'r penodiadau i'r Uwch Wasanaeth Sifil fod yn fenywod

**30%** Erbyn 2030, rydym am i 30% o'r bobl a benodwn fod yn bobl anabl

**Datblygiad gyrfa mewnol:**

- Dyrchafu staff anabl ar lefel sy'n rhagori ar eu cyfran o boblogaeth gweithlu Llywodraeth Cymru.
- Dyrchafu staff ethnig leiafrifol ar lefel sy'n rhagori ar eu cyfran o boblogaeth gweithlu Llywodraeth Cymru.
- Bydd mwy na 50% o'r bobl a gaiff eu dyrchafu i'r Uwch Wasanaeth Sifil yn fenywod.

Er mwyn ein helpu i gyflawni ein nodau, rydym wedi cryfhau ein gweithgareddau allgymorth â chymunedau amrywiol, gan ddangos bod Llywodraeth Cymru yn gyflogwr delfrydol sy'n gynhwysol ac yn gefnogol. Rydym yn parhau i fireinio ein dulliau recriwtio i sicrhau bod hysbysebion swydd a phrosesau asesu yn deg, yn gymesur ac yn groesawgar i bawb. Yn ogystal, rydym yn cymryd camau gweithredol i hyrwyddo addasiadau recriwtio er mwyn dileu rhwystrau a galluogi pob ymgeisydd i berfformio ar ei orau.

## Ar gyfer blwyddyn galendr 2024, mae ein hystadegau yn dangos y canlynol:

Roedd cyfraddau recriwtio staff ethnig leiafrifol wedi cynyddu o 3.7% o'r holl recriwtiaid newydd yn 2023 i 10% yn 2024. Roedd cyfraddau dyrchafu ar gyfer staff ethnig leiafrifol wedi cynyddu o 2.4% yn 2023 i 3.6% yn 2024.

Roedd cyfraddau recriwtio staff anabl wedi cynyddu o 4.0% o'r holl recriwtiaid newydd yn 2023 i 7.5% yn 2024. Roedd cyfraddau dyrchafu ar gyfer staff anabl wedi cynyddu o 3.8% yn 2023 i 7% yn 2024.

Yn 2024, gwnaethom ragori ar ein targedau ar gyfer dyrchafu a recriwtio menywod i'r Uwch Wasanaeth Sifil.[1] Ar 31 Mawrth 2025, roedd canran y menywod yn yr Uwch Wasanaeth Sifil yn 47.9%, cynnydd o 42.7% yn 2024 a'r lefel uchaf ers inni ddechrau adrodd ar hyn yn 2012.

1 Oherwydd y niferodd cymharol fach yn yr Uwch Wasanaeth Sifil, mae'r ffigur yn amrywio eithaf tipyn yn seiliedig ar hyd yn oed niferoedd bach yn ymuno neu'n gadael.

## Digwyddiad Bord Gron ar Amrywiaeth wrth Recriwtio

Ym mis Ebrill 2024, mewn partneriaeth â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddigwyddiad bord gron i roi'r adnoddau inni, ac eraill yn y sector cyhoeddus, gyflawni ein gweledigaeth o sefydliad sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru yn llawn ar bob lefel.
Yn y digwyddiad hwn, daeth Llywodraeth Cymru, gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau ehangach ynghyd i nodi a rhannu arferion gorau.

Cafodd yr adroddiad terfynol ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2024, gyda chanfyddiadau allweddol mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys allgymorth wrth recriwtio, methodolegau asesu a Gweithredu Cadarnhaol.

## Adduned Menywod yn y Gyfraith

Mae Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gydraddoldeb rhywedd ac ymrwymodd i Adduned Menywod yn y Gyfraith (yr 'Adduned') Cymdeithas y Cyfreithwyr ym mis Chwefror 2020. Mae'r Adduned yn cadarnhau ymrwymiad y Gwasanaethau Cyfreithiol i'r canlynol:

i. Cefnogi menywod i gamu ymlaen i uwch swyddi yn y proffesiwn.

ii. Pennu cynlluniau a thargedau clir ynghylch cydraddoldeb rhywedd ac amrywiaeth.

iii. Cyhoeddi cynllun gweithredu ynghyd ag adroddiad cyhoeddus ar gynnydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi manylion am yr Adduned yn flynyddol yn Adroddiad Cydraddoldeb y Cyflogwr. Maent ar gael yn Atodiad E.

# Rhan 2:
# Dysgu A Datblygu

## Data Dysgu a Datblygu Craidd yn ôl Nodwedd Warchodedig

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gefnogi staff i ddatblygu a ffynnu. Caiff cydweithwyr eu hannog i ymgymryd â dysgu hunangyfeiriedig, a chwilio am y cyfleoedd sy'n addas ar gyfer eu dull o ddysgu a'u hanghenion o'n catalog dysgu cynhwysfawr.

Mae ein cynnig dysgu craidd ar gael i bob aelod o'r staff ac nid oes angen gwneud cais amdano.[2] Nodir isod ddadansoddiad o bresenoldeb ar gyfer yr holl hyfforddiant craidd yn ôl nodwedd warchodedig. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant a gafwyd gan staff parhaol a staff dros dro a gofnodwyd drwy Learning Lab, sef system rheoli dysgu ganolog y sefydliad.

Mae'r ffigurau hyn yn dangos cyfraddau presenoldeb ar gyrsiau dysgu a datblygu corfforaethol craidd ac nid ydynt yn cynnwys rhaglenni datblygu nac unrhyw gyfleoedd dysgu eraill a allai fod wedi bod yn rhai allanol, wedi cael eu trefnu'n anffurfiol neu ar lefel adran/tîm. Mae 'presenoldeb' yn cyfeirio at nifer y lleoedd a lenwyd ar gwrs hyfforddiant, ac mae 'yn bresennol' yn cyfeirio at nifer y cyflogeion, felly mae'n bosibl y bydd cyflogeion unigol yn cael eu cyfrif nifer o weithiau o dan 'presenoldeb'. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf ac mae ffigurau islaw 5 wedi'u hatal a'u dynodi â*. Mae canrannau wedi'u talgrynnu. [1]Efallai na fydd ffigurau yn gwneud cyfanswm oherwydd talgrynnu. Caiff cyfansymiau eu cyfrifo gan ddefnyddio'r niferoedd gwirioneddol cyn talgrynnu.



2 Gan fod ein cynnig dysgu craidd yn agored i bob aelod o staff, ni allwn roi data ar 'gyflogeion sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant ac a fu'n llwyddiannus' fel sy'n ofynnol gan Reoliad 9 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 ('Rheoliadau 2011')

| Rhyw | Presenoldeb | Unigolion | Presenoldeb | Unigolion |
|---|---|---|---|---|
| Menywod | 12,300 | 2,210 | 70.0% | 66.5% |
| Dynion | 5,280 | 1,110 | 30.0% | 33.5% |
| Arall | * | * | 0.0% | 0.0% |
| **Cyfanswm[1]** | **17,590** | **3,320** | | |

| Oedran | Presenoldeb | Unigolion | Presenoldeb | Unigolion |
|---|---|---|---|---|
| 16-24 | 520 | 70 | 3.0% | 2.0% |
| 25-29 | 1,110 | 190 | 6.3% | 5.8% |
| 30-34 | 1,810 | 320 | 10.3% | 9.7% |
| 35-39 | 2,070 | 350 | 11.8% | 10.5% |
| 40-44 | 2,800 | 520 | 15.9% | 15.7% |
| 45-49 | 2,640 | 540 | 15. 0% | 16.3% |
| 50-54 | 2,420 | 500 | 13.8% | 15.2% |
| 55-59 | 2,580 | 480 | 14.7% | 14.6% |
| 60-64 | 1,190 | 250 | 6.8% | 7.6% |
| 65+ | 470 | 90 | 2.7% | 2.6% |
| **Cyfanswm[1]** | **17,590** | **3,320** | | |

| Anabledd | Presenoldeb | Unigolion | Presenoldeb | Unigolion |
|---|---|---|---|---|
| Anabl | 1,430 | 260 | 8.1% | 7.8% |
| Ddim yn Anabl | 14,180 | 2,730 | 80.6% | 82.4% |
| Heb ddatgan | 1,830 | 300 | 10.4% | 9.1% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 150 | 30 | 0.9% | 0.8% |
| **Cyfanswm[1]** | **17,590** | **3,320** | | |

| Hil | Presenoldeb | Unigolion | Presenoldeb | Unigolion |
|---|---|---|---|---|
| Arabaidd | 10 | * | 0.0% | 0.0% |
| Asiaidd – Bangladeshaidd | 10 | * | 0.1% | 0.1% |
| Asiaidd – Tsieineaidd | 20 | 10 | 0.1% | 0.2% |
| Asiaidd – Indiaidd | 60 | 10 | 0.3% | 0.4% |
| Asiaidd – Pacistanaidd | 40 | 10 | 0.2% | 0.3% |
| Du – Affricanaidd | 90 | 10 | 0.5% | 0.3% |
| Du – Caribïaidd | 80 | * | 0.4% | 0.1% |
| Sipsiwn a Theithiwr Gwyddelig | 0 | * | 0.0% | 0.0% |
| Cymysg – Asiaidd a Gwyn | 50 | 10 | 0.3% | 0.4% |
| Cymysg – Du Affricanaidd a Gwyn | 20 | * | 0.1% | 0.1% |
| Cymysg – Du Caribïaidd a Gwyn | 30 | 10 | 0.1% | 0.2% |
| Cefndir Asiaidd arall | 30 | * | 0.1% | 0.1% |
| Cefndir Du arall | 0 | 0 | 0.0% | 0.0% |
| Grŵp Ethnig arall | 70 | 10 | 0.4% | 0.4% |
| Cefndir Ethnig Cymysg arall | 150 | 20 | 0.9% | 0.5% |
| Gwyn | 14,880 | 2,840 | 84.6% | 85.7% |
| Heb ddatgan | 1,500 | 260 | 8.6% | 7.7% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 570 | 110 | 3.3% | 3.4% |
| **Cyfanswm[1]** | **17,590** | **3,320** | | |

| Crefydd/Cred | Presenoldeb | Unigolion | Presenoldeb | Unigolion |
|---|---|---|---|---|
| Agnosticiaeth | 1,150 | 220 | 6.6% | 6.7% |
| Anffyddiaeth | 1,530 | 290 | 8.7% | 8.9% |
| Baha'i | 10 | * | 0.1% | 0.1% |
| Bwdhaeth | 20 | 10 | 0.1% | 0.2% |
| Cristnogaeth | 5,540 | 1,100 | 31.5% | 33.1% |
| Hindŵaeth | 60 | 10 | 0.3% | 0.2% |
| Dyneiddiaeth | 50 | 10 | 0.3% | 0.2% |
| Islam | 140 | 30 | 0.8% | 0.8% |
| Jainiaeth | 0 | * | 0.0% | 0.0% |
| Iddewiaeth | 0 | * | 0.0% | 0.0% |
| Dim Crefydd/Cred | 2,740 | 500 | 15.6% | 14.9% |
| Crefydd/Cred Arall | 240 | 60 | 1.4% | 1.9% |
| Paganiaeth | 20 | 10 | 0.1% | 0.2% |
| Sikhiaeth | 10 | * | 0.0% | 0.1% |
| Taoaeth | 0 | 0 | 0.0% | 0.0% |
| Heb ddatgan | 2,560 | 420 | 14.6% | 12.8% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 3,510 | 660 | 20.0% | 19.9% |
| **Cyfanswm[1]** | **17,590** | **3,320** | | |

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Presenoldeb | Unigolion | Presenoldeb | Unigolion |
|---|---|---|---|---|
| Heterorywiol/Strêt | 12,660 | 2,460 | 72.0% | 74.2% |
| Cyfeiriadedd Rhywiol Arall | 990 | 170 | 5.6% | 5.0% |
| Heb ddatgan | 2,340 | 360 | 13.3% | 10.7% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1,600 | 330 | 9.1% | 10.1% |
| **Cyfanswm[1]** | **17,590** | **3,320** | | |

| Mamolaeth/Beichiogrwydd** | Presenoldeb | Unigolion | Presenoldeb | Unigolion |
|---|---|---|---|---|
| Na | 17,390 | 3,280 | 98.9% | 98.9% |
| Ie | 200 | 40 | 1.1% | 1.2% |
| **Cyfanswm[1]** | **17,590** | **3,320** | | |

**Yn ystod y cyfnod adrodd, nid o reidrwydd ar adeg yr hyfforddiant

| Statws Priodasol | Presenoldeb | Unigolion | Presenoldeb | Unigolion |
|---|---|---|---|---|
| Wedi priodi/Partneriaeth Sifil | 8,380 | 1,610 | 47.7% | 48.6% |
| Statws Arall | 2,070 | 370 | 11.8% | 11.2% |
| Sengl | 5,200 | 920 | 29.5% | 27.8% |
| Heb ddatgan | 1,940 | 410 | 11.1% | 12.4% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm[1]** | **17,590** | **3,320** | | |

| Ailbennu Rhywedd (yr un peth â'r rhyw a bennwyd adeg geni) | Presenoldeb | Unigolion | Presenoldeb | Unigolion |
|---|---|---|---|---|
| Ddim yr un peth | 60 | 10 | 0.3% | 0.2% |
| Yr un peth | 10,710 | 1,820 | 60.9% | 54.9% |
| Heb ddatgan | 360 | 70 | 36.7% | 42.7% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 6,460 | 1,420 | 2.1% | 2.2% |
| **Cyfanswm[1]** | **17,590** | **3,320** | | |

## Y Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei gweledigaeth ar gyfer gweld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ynghyd â dyblu'r defnydd beunyddiol o'r iaith yn ei strategaeth Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg. O fewn y sefydliad, ei huchelgais yw dod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog erbyn 2050, fel y'i nodwyd yn Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd, ei strategaeth ar y defnydd mewnol o'r Gymraeg.

**Tabl 2a** – Sgiliau iaith staff sy'n gallu defnyddio pob sgìl ym mhob sefyllfa yn y gwaith, neu'r rhan fwyaf ohonynt

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Darllen | 1,420 | 23.9% |
| Siarad | 1,290 | 21.8% |
| Deall | 1,400 | 23.5% |
| Ysgrifennu | 1,120 | 18.8% |

**Tabl 2b** – Sgiliau a ddatganwyd gan staff ar bob lefel o allu yn y Gymraeg (o ddechreuwyr i siaradwyr rhugl)

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Darllen | 3,420 | 57.5% |
| Siarad | 2,920 | 49.1% |
| Deall | 3,260 | 54.8% |
| Ysgrifennu | 2,580 | 43.4% |

Mae staff yn hunan-ddatgan eu sgiliau Cymraeg yn wirfoddol ar ein system adnoddau dynol.

# Rhan 3:
# Y Gweithlu A Recriwtio

## Cynrychiolaeth y Gweithlu (yn ôl Nodwedd Warchodedig ar 31 Mawrth 2025)

Rydym yn annog staff i ddiweddaru eu gwybodaeth bersonol (e.e. hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol) ar ein system adnoddau dynol. Mae hunan-ddatgan yn ein helpu i roi cymorth priodol a deall i ba raddau rydym yn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir gennym yng Nghymru. Caiff yr wybodaeth hon ei rhannu yn gwbl wirfoddol.

Yn yr adroddiad hwn:

– Mae **'Heb ddatgan'** yn golygu na ddarparwyd ymateb.
– Mae **'Gwell gennyf beidio â dweud'** yn golygu bod yr ymatebydd wedi penderfynu gwrthod ateb y cwestiwn.

**I gadw cyfrinachedd, mae'r data wedi'u talgrynnu i'r deg agosaf, ac mae ffigurau islaw wedi'u hatal (*). Mae canrannau wedi'u talgrynnu ac maent yn seiliedig ar gyfanswm cyfrif pennau o 5,950. Caiff cyfansymiau[1] eu cyfrifo gan ddefnyddio'r niferoedd gwirioneddol cyn talgrynnu ac felly efallai na fyddant yn gwneud cyfanswm oherwydd talgrynnu.**


Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio'r termau anabledd ac ailbennu rhywedd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, yn ein gwaith gyda staff ac yn ein polisïau adnoddau dynol, rydym yn defnyddio iaith ehangach a mwy cynhwysol i adlewyrchu ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant.

At ddibenion y data a ddarperir yn yr adroddiad hwn, caiff y termau dynion a menywod eu defnyddio hefyd fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, sy'n cyfeirio at nodwedd warchodedig rhyw.Fodd bynnag, unwaith eto, rydym yn cydnabod bod hunaniaeth a mynegiant rhywedd yn ehangach na'r diffiniadau cyfreithiol hyn, ac mae ein polisïau a'n harferion ehangach yn cynnwys ein holl staff yn llawn.




**Tabl 3** – Gweithlu yn ôl Rhyw

| | Nifer | % |
|---|---:|---:|
| Menywod | 3,630 | 61.0% |
| Dynion | 2,320 | 39.0% |
| Arall/Dim | * | 0.0% |
| **Cyfanswm[1]** | **5,950** | |





**Tabl 4** – Gweithlu yn ôl Oedran

| | Nifer | % |
|---|---:|---:|
| 16-24 | 100 | 1.7% |
| 25-29 | 340 | 5.8% |
| 30-34 | 560 | 9.4% |
| 35-39 | 650 | 11.0% |
| 40-44 | 920 | 15.5% |
| 45-49 | 920 | 15.5% |
| 50-54 | 900 | 15.2% |
| 55-59 | 820 | 13.8% |
| 60-64 | 520 | 8.7% |
| 65+ | 210 | 3.5% |
| **Cyfanswm[1]** | **5,950** | |





**Tabl 5** – Gweithlu yn ôl Anabledd

| | Nifer | % |
|---|---:|---:|
| Anabl | 380 | 6.4% |
| Ddim yn Anabl | 5,030 | 84.7% |
| Heb ddatgan | 510 | 8.5% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 30 | 0.4% |
| **Cyfanswm[1]** | **5,950** | |




**Tabl 6** – Gweithlu yn ôl Hil

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ethnigrwydd Arall | 190 | 3.1% |
| Gwyn | 5,070 | 85.2% |
| Heb ddatgan | 470 | 7.8% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 230 | 3.9% |
| **Cyfanswm[1]** | **5,950** | |





**Tabl 7** – Gweithlu yn ôl Crefydd neu Gred

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Cristnogaeth | 2,070 | 34.8% |
| Dim Crefydd/Cred | 920 | 15.5% |
| Crefydd/Cred Arall | 1,190 | 20.0% |
| Heb ddatgan | 520 | 8.8% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1,250 | 20.9% |
| **Cyfanswm[1]** | **5,950** | |





**Tabl 8** – Gweithlu yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Heterorywiol/Strêt | 4,470 | 75.1% |
| Cyfeiriadedd Rhywiol Arall | 260 | 4.4% |
| Heb ddatgan | 580 | 9.8% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 640 | 10.7% |
| **Cyfanswm[1]** | **5,950** | |




**Tabl 9** – Gweithlu yn ôl Statws Priodasol

| | Niferr | % |
|---|---:|---:|
| Wedi Priodi/ Partneriaeth Sifil | 2,880 | 48.4% |
| Statws Arall | 670 | 11.2% |
| Sengl | 1,550 | 26.1% |
| Heb ddatgan | 850 | 14.4% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 0 | 0 |
| **Cyfanswm[1]** | **5,950** | |





**Tabl 10** – Gweithlu yn ôl Beichiogrwydd a Mamolaeth

| | Nifer | % |
|---|---:|---:|
| Na | 5,850 | 98.4% |
| Ie | 100 | 1.7% |
| **Cyfanswm[1]** | **5,950** | |




**Tabl 11** – Gweithlu yn ôl Ailbennu Rhywedd (Yr un peth â'r rhyw a bennwyd adeg geni)

| | Niferr | % |
|---|---:|---:|
| Na (ddim yr un peth) | 10 | 0.2% |
| Ie (yr un peth) | 2,970 | 49.9% |
| Heb ddatgan | 2,850 | 48.0% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 120 | 2.0% |
| **Cyfanswm[1]** | **5,950** | |




Drwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf ac mae ffigurau islaw 5 wedi'u hatal a'u dynodi â*. Mae canrannau wedi'u talgrynnu. [1]Efallai na fydd ffigurau yn gwneud cyfanswm oherwydd talgrynnu.

## Dynion a Menywod yn y Gweithlu

Mae Rheoliadau 2011 yn ei gwneud yn ofynnol inni gasglu a chyhoeddi dadansoddiad o nifer y cyflogeion benywaidd a gwrywaidd yn ôl swydd, gradd, cyflog, math o gontract a phatrwm gweithio. Dylai hyn roi syniad clir o sut y caiff swyddi eu dosbarthu ac ar ba lefelau. Mae hyn yn helpu i nodi gwahaniaethau cyflog ar sail rhywedd, yn ogystal â materion eraill yn ymwneud â chydraddoldeb rhywedd, fel gwahanu galwedigaethol.

**Tabl 12** – Proffesiwn

| Proffesiwn | Menywod | Dynion |
|---|---|---|
| Cyfathrebu | 100 | 70 |
| Economeg | 20 | 30 |
| Peirianneg | 10 | 30 |
| Rheoli Cyfleusterau | 30 | 40 |
| Cyllid | 190 | 130 |
| Iechyd | 130 | 70 |
| Adnoddau Dynol | 140 | 50 |
| Archwilio Mewnol | 10 | 10 |
| Rheoli Gwybodaeth/ Llyfrgell | 50 | 50 |
| Arolygwyr | 180 | 60 |
| Technoleg Gwybodaeth | 90 | 160 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol | 140 | 60 |
| Marchnata | 60 | 30 |
| Cyflawni Gweithredol | 910 | 620 |
| Cynllunio | 40 | 40 |
| Cyflawni Polisi | 1,060 | 640 |
| Caffael a Rheoli Contractau | 50 | 30 |
| Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau | 60 | 40 |
| Ymchwil Gymdeithasol/ Ymchwil i'r Farchnad | 70 | 40 |
| Gwyddoniaeth | 40 | 30 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol | 140 | 20 |
| Ystadegau | 50 | 50 |
| Syrfewyr | 10 | 20 |
| Cyfieithu | 30 | 10 |
| Gwasanaethau Milfeddygol | * | * |
| **Cyfanswm[1]** | **3,630** | **2,320** |

**Tabl 13** – Gradd

| Gradd | Menywod | Dynion |
|---|---|---|
| SCSPS | 0 | * |
| SCS3 | * | * |
| SCS2 | 10 | 30 |
| SCS1 | 80 | 80 |
| Gradd 6 | 130 | 120 |
| Gradd 7 | 590 | 440 |
| Uwch Swyddog Gweithredol (SEO) | 940 | 530 |
| Swyddog Gweithredol Uwch (HEO) | 900 | 480 |
| Swyddog Gweithredol (EO) | 540 | 390 |
| Cymorth Tîm | 430 | 240 |
| Arall | 20 | 20 |
| **Cyfanswm[1]** | **3,630** | **2,320** |

**Tabl 14** – Math o Gontract

| Contract | Menywod | Dynion |
|---|---|---|
| Parhaol | 3,520 | 2,240 |
| Dros dro | 110 | 80 |
| **Cyfanswm[1]** | **3,630** | **2,320** |

**Tabl 15** – Patrwm Gweithio

| Patrwm Gweithio | Menywod | Dynion |
|---|---|---|
| Llawn Amser | 2,700 | 2,080 |
| Rhan Amser | 920 | 240 |
| **Cyfanswm[1]** | **3,630** | **2,320** |

## Adrodd ar Fylchau Cyflog

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliadau cyflog cyfartal rheolaidd sydd â'r nod o dynnu sylw at feysydd lle y ceir risg sy'n gysylltiedig â chyflog cyfartal yn y system gyflogau a llywio'r camau a gymerwn i sicrhau cyflog cyfartal.

### Rhywedd

Bwlch cyflog rhywedd cymedrig Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2025 yw 4.73%. Mae hyn yn golygu bod dynion sy'n gweithio yn y sefydliad yn ennill 4.73% yn fwy na menywod ar gyfartaledd. Ar 31 Mawrth 2025, bwlch cyflog canolrifol Llywodraeth Cymru yw 4.82%, sy'n golygu nad yw cyflog canolrifol dynion a menywod sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru yr un peth mwyach (dyma fu'r achos ers inni ddechrau adrodd ar hyn yn 2022). Mae bwlch cyflog rhywedd Llywodraeth Cymru wedi lleihau i 4.73% ym mis Mawrth 2025 o 6.08% ym mis Mawrth 2024. Dyma'r bwlch cyflog lleiaf ers i'n cyfres amser ddechrau yn 2019.

### Anabledd

Bwlch cyflog anabledd cymedrig Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2025 yw 4.69%. Mae hyn yn golygu bod pobl nad ydynt yn anabl yn ennill 4.69% yn fwy na phobl sy'n anabl, ar gyfartaledd. Ar 31 Mawrth 2025, bwlch cyflog anabledd canolrifol Llywodraeth Cymru oedd 4.82%. Mae bwlch cyflog anabledd Llywodraeth Cymru wedi cynyddu i 4.69% ym mis Mawrth 2025, o 4.10% ym mis Mawrth 2024. Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae'n dal yn llai na'r holl flynyddoedd eraill ers i'r gyfres amser ddechrau yn 2019 ac mae wedi bod yn lleihau dros amser ar y cyfan.

### Ethnigrwydd

Bwlch cyflog ethnigrwydd cymedrig Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2025 yw 4.13%. Mae hyn yn golygu bod pobl sydd o gefndir Gwyn yn ennill 4.13% yn fwy na phobl sydd o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol, ar gyfartaledd. Ar 31 Mawrth 2025, bwlch cyflog ethnigrwydd canolrifol Llywodraeth Cymru oedd 4.82%. Gwelwyd cynnydd bach ym mwlch cyflog ethnigrwydd Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025 (4.13%) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (3.78%). Cynyddodd y bwlch cyflog ethnigrwydd rhwng 2019 a 2021, cyn lleihau rhwng 2021 a 2024.

### Cyfeiriadedd Rhywiol

Rydym wedi dadansoddi bwlch cyflog cyfeiriadedd rhywiol Llywodraeth Cymru dros y pedair blynedd diwethaf. Mae wedi bod yn negatif bob blwyddyn sy'n dynodi cyflog uwch i staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol.

Mae hyn yn golygu bod y bwlch cyflog cyfeiriadedd rhywiol cymedrig wedi parhau i fod yn negatif, sef -2.32% ym mis Mawrth 2025, sy'n dynodi bod cyflogau staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol ychydig yn uwch ar gyfartaledd na chyflogau staff heterorywiol.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein bylchau cyflog yn Atodiad D.


## Gweithgarwch Recriwtio

Mae'r tablau isod yn dangos gweithgarwch recriwtio yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025. Mae recriwtio allanol yn cyfeirio at bob ymgeisydd allanol, mae recriwtio mewnol yn cyfeirio at y rhai sydd eisoes yn gweithio yn y sefydliad ac sy'n gwneud cais i newid rôl a/neu radd. Caiff data recriwtio (allanol a mewnol) eu tynnu o'n system recriwtio ar-lein, 'CAIS', a chaiff data cydraddoldeb eu hunan-ddatgan.

## Ceisiadau Allanol am Swyddi (Pobl sydd wedi gwneud cais am swyddi gyda Llywodraeth Cymru – 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025)


**Tabl 16a** – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Rhyw

| Rhyw | Cyfanswm[1] |
|---|---|
| Menywod | 2,220 |
| Dynion | 1,790 |
| Arall | 180 |
| Heb ddatgan | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 90 |
| **Cyfanswm[1]** | **4,270** |





**Tabl 16b** – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Oedran

| Oedran | Cyfanswm[1] |
|---|---|
| 16-24 | 650 |
| 25-29 | 670 |
| 30-34 | 620 |
| 35-39 | 470 |
| 40-44 | 390 |
| 45-49 | 300 |
| 50-54 | 250 |
| 55-59 | 150 |
| 60-64 | 70 |
| 65+ | 10 |
| Heb ddatgan | 80 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 630 |
| **Cyfanswm[1]** | **4,270** |



**Tabl 16c** – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Anabledd

| Anabledd | Cyfanswm[1] |
|---|---|
| Anabl | 680 |
| Ddim yn Anabl | 3,590 |
| Heb ddatgan | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm[1]** | **4,270** |





**Tabl 16d** – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Hil

| Hil | Cyfanswm[1] |
|---|---|
| Unrhyw Gefndir Asiaidd arall | 40 |
| Unrhyw Gefndir Du / Affricanaidd / Caribïaidd arall | 10 |
| Unrhyw Gefndir Cymysg / Aml-ethnig arall | 30 |
| Unrhyw Gefndir Gwyn arall | 160 |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – Bangladeshaidd | 60 |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – Tsieineaidd | 20 |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – Indiaidd | 230 |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – Pacistanaidd | 80 |
| Du /Affricanaidd /Caribïaidd /Du Prydeinig – Affricanaidd | 220 |
| Du /Affricanaidd /Caribïaidd /Du Prydeinig – Caribïaidd | 20 |
| Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig – Gwyn ac Asiaidd | 40 |
| Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig – Gwyn a Du Affricanaidd | 20 |
| Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig – Gwyn a Du Caribïaidd | 30 |
| Grŵp Ethnig Arall – Unrhyw grŵp ethnig arall | 20 |
| Grŵp Ethnig Arall - Arabaidd | 20 |
| Gwyn – Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig | * |
| Gwyn - Gwyddelig | 50 |
| Gwyn – Cymreig / Seisnig / Albanaidd / Gwyddelig Gogledd Iwerddon / Prydeinig | 3,160 |
| Heb ddatgan | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 100 |
| **Cyfanswm[1]** | **4,270** |


**Tabl 16e** – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Crefydd neu Gred

| Crefydd/Cred | Cyfanswm[1] |
|---|---|
| Unrhyw grefydd arall | 60 |
| Bwdhaeth | 20 |
| Cristnogaeth (pob enwad) | 1,350 |
| Hindŵaeth | 150 |
| Iddewiaeth | 10 |
| Islam | 210 |
| Dim Crefydd | 2,060 |
| Sikhiaeth | 110 |
| Heb ddatgan | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 310 |
| **Cyfanswm[1]** | **4,270** |





**Tabl 16f** – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Cyfeiriadedd Rhywiol

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Cyfanswm[1] |
|---|---|
| Heterorywiol / Strêt | 3,380 |
| Cyfeiriadedd Rhywiol Arall | 520 |
| Heb ddatgan | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 360 |
| **Cyfanswm[1]** | **4,270** |





**Tabl 16g** – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Priodas/Partneriaeth Sifil

| Wedi Priodi/Partneriaeth Sifil | Cyfanswm[1] |
|---|---|
| Na | 1,760 |
| Ie | 2,390 |
| Heb ddatgan | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 130 |
| **Cyfanswm[1]** | **4,270** |




**Tabl 16h** – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Ailbennu Rhywedd (Yr un peth â'r rhyw a bennwyd adeg geni)

| Ailbennu Rhywedd (yr un peth â'r rhyw a bennwyd adeg geni) | Cyfanswm[1] |
|---|---|
| Ddim yr un peth | 180 |
| Yr un peth | 4,000 |
| Heb ddatgan | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 90 |
| **Cyfanswm[1]** | **4,270** |




**Tabl 16i** – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Beichiogrwydd a Mamolaeth

| Yn Feichiog ar Hyn o Bryd/Yn Feichiog yn ystod y Flwyddyn Ddiwethaf | Cyfanswm[1] |
|---|---|
| Na | 4,130 |
| Ie | 50 |
| Heb ddatgan | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 90 |
| **Cyfanswm[1]** | **4,270** |



## Ceisiadau Mewnol am Swyddi

(Cyflogeion sydd wedi gwneud cais i newid swyddi – 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025). Pob Gradd.

**Tabl 17a** – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Rhyw

| Rhyw | Heb symud ymlaen*** | Aflwyddiannus | Llwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Menywod | 40 | 1,050 | 660 | 1,750 |
| Dynion | 20 | 760 | 360 | 1,140 |
| Arall | 0 | 30 | 20 | 50 |
| Heb ddatgan | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 10 | 60 | 30 | 100 |
| **Cyfanswm[1]** | **70** | **1,890** | **1,070** | **3,030** |

**Tabl 17b** – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Oedran

| Oedran | Heb symud ymlaen*** | Aflwyddiannus | Llwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 16-24 | 0 | 20 | 20 | 50 |
| 25-29 | 10 | 170 | 140 | 310 |
| 30-34 | 10 | 340 | 170 | 510 |
| 35-39 | 10 | 260 | 170 | 440 |
| 40-44 | 20 | 330 | 200 | 550 |
| 45-49 | 10 | 290 | 140 | 440 |
| 50-54 | 10 | 220 | 110 | 340 |
| 55-60 | * | 100 | 50 | 160 |
| 60-64 | * | 50 | 20 | 70 |
| 65+ | 0 | * | * | * |
| Heb ddatgan | 0 | 10 | 10 | 20 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 10 | 90 | 40 | 140 |
| **Cyfanswm[1]** | **70** | **1,890** | **1,070** | **3,030** |

**Tabl 17c** – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Anabledd

| Anabledd | Heb symud ymlaen*** | Aflwyddiannus | Llwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Anabl | 10 | 320 | 130 | 460 |
| Ddim yn Anabl | 60 | 1,570 | 940 | 2,570 |
| Heb ddatgan | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm[1]** | **70** | **1,890** | **1,070** | **3,030** |

**Tabl 17d** – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Hil

| Hil | Heb symud ymlaen*** | Aflwyddiannus | Llwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Unrhyw Gefndir Asiaidd arall | 0 | * | * | 10 |
| Unrhyw Gefndir Du / Affricanaidd / Caribïaidd arall | 0 | 0 | * | * |
| Unrhyw Gefndir Cymysg / Aml-Ethnig Arall | 0 | 10 | 10 | 10 |
| Unrhyw Gefndir Gwyn arall | 0 | 50 | 20 | 70 |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – Bangladeshaidd | 0 | 10 | * | 10 |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – Tsieineaidd | 0 | * | 0 | * |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – Indiaidd | 0 | 10 | * | 10 |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – Pacistanaidd | 0 | 20 | * | 20 |
| Du /Affricanaidd /Caribïaidd /Du Prydeinig – Affricanaidd | 0 | * | * | 10 |
| Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig – Gwyn ac Asiaidd | 0 | 10 | 10 | 10 |
| Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig – Gwyn a Du Affricanaidd | 0 | 10 | * | 10 |
| Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig – Gwyn a Du Caribïaidd | 0 | * | * | 10 |
| Grŵp Ethnig Arall – Unrhyw grŵp ethnig arall | 0 | 0 | * | * |
| Grŵp Ethnig Arall - Arabaidd | 0 | * | 0 | * |
| Gwyn – Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig | 0 | 0 | * | * |
| Gwyn - Gwyddelig | * | 20 | 20 | 30 |
| Gwyn – Cymreig / Seisnig / Albanaidd / Gwyddelig Gogledd Iwerddon / Prydeinig | 60 | 1,690 | 960 | 2,710 |
| Heb ddatgan | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * | 80 | 30 | 110 |
| **Cyfanswm[1]** | **70** | **1,890** | **1,070** | **3,030** |

**Tabl 17e** – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Crefydd neu Gred

| Crefydd/Cred | Heb symud ymlaen*** | Aflwyddiannus | Llwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Unrhyw grefydd arall | 0 | 20 | 10 | 30 |
| Bwdhaeth | 0 | 10 | * | 10 |
| Cristnogaeth (pob enwad) | 20 | 590 | 310 | 930 |
| Hindŵaeth | 0 | 10 | * | 10 |
| Iddewiaeth | 0 | 10 | * | 10 |
| Islam | 0 | 20 | 10 | 30 |
| Dim Crefydd | 40 | 1,040 | 640 | 1,710 |
| Sikhiaeth | 0 | 10 | 10 | 20 |
| Heb ddatgan | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 10 | 200 | 90 | 290 |
| **Cyfanswm[1]** | **70** | **1,890** | **1,070** | **3,030** |

**Tabl 17f** – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Cyfeiriadedd Rhywiol

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Heb symud ymlaen*** | Aflwyddiannus | Llwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Heterorywiol / Strêt | 60 | 1,570 | 910 | 2,540 |
| Cyfeiriadedd Rhywiol Arall | * | 130 | 70 | 210 |
| Heb ddatgan | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 10 | 200 | 80 | 290 |
| **Cyfanswm[1]** | **70** | **1,890** | **1,070** | **3,030** |

**Tabl 17g** – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Priodas/Partneriaeth Sifil

| Wedi Priodi/Partneriaeth Sifil | Heb symud ymlaen*** | Aflwyddiannus | Llwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Na | 20 | 740 | 490 | 1260 |
| Ie | 30 | 1050 | 530 | 1610 |
| Heb ddatgan | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 10 | 100 | 50 | 160 |
| **Cyfanswm[1]** | **70** | **1,890** | **1,070** | **3,030** |

**Tabl 17h** – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Ailbennu Rhywedd (Yr un peth â'r rhyw a bennwyd adeg geni)

| Ailbennu Rhywedd (yr un peth â'r rhyw a bennwyd adeg geni) | Heb symud ymlaen*** | Aflwyddiannus | Llwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Na | 0 | 30 | 20 | 50 |
| Ie | 60 | 1,810 | 1,020 | 2,880 |
| Heb ddatgan | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 10 | 60 | 30 | 100 |
| **Cyfanswm[1]** | **70** | **1,890** | **1,070** | **3,030** |

**Tabl 17i** – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Beichiogrwydd a Mamolaeth

| Yn Feichiog ar Hyn o Bryd/Yn ystod y Flwyddyn Ddiwethaf | Heb symud ymlaen*** | Aflwyddiannus | Llwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Na | 60 | 1800 | 1020 | 2880 |
| Ie | 0 | 20 | 20 | 30 |
| Heb ddatgan | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 10 | 80 | 40 | 120 |
| **Cyfanswm[1]** | **70** | **1,890** | **1,070** | **3,030** |

***Ystyr 'Heb symud ymlaen' yw bod yr ymgeisydd wedi tynnu'r cais yn ôl/wedi dewis peidio â mynychu asesiad, bod y swydd wag wedi'i thynnu'n ôl neu fod y cynnig wedi'i wrthod.

Drwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf ac mae ffigurau islaw 5 wedi'u hatal a'u dynodi â*. Mae canrannau wedi'u talgrynnu. [1]Efallai na fydd ffigurau yn gwneud cyfanswm oherwydd talgrynnu.

# Rhan 4:
# Cyflogwr Delfrydol

## Bod yn gyflogwr delfrydol

Nod Llywodraeth Cymru yw bod yn gyflogwr delfrydol, er mwyn denu a chadw gweithlu amrywiol a thalentog. Mae ein gwerthoedd, sef **tegwch, creadigrwydd, partneriaeth a phroffesiynoldeb**, wrth wraidd y ffordd rydym yn gweithio. Rydym yn cynnig amgylchedd gwaith hyblyg a chefnogol lle rhoddir blaenoriaeth i lesiant cyflogeion. Rydym yn annog ein holl gyflogeion yn frwd i gyflawni eu potensial, ni waeth beth fo'u cefndir.

Drwy gynnig cyflog cystadleuol, pensiwn hael, cynrychiolaeth Undebol ac amrywiaeth eang o fuddiannau i gyflogeion, mae Llywodraeth Cymru yn arwain y ffordd fel Cyflogwr Cyflog Byw. Mae'n cynnig opsiynau gweithio hyblyg, gan gynnwys gweithio'n rhan amser/rhannu swydd, gweithio yn ystod y tymor ac oriau cywasgedig.

Rydym wedi mabwysiadu dull hybrid o weithio o bell, yn y swyddfa neu ar y safle, gyda gweithleoedd dros y wlad i gyd.

Mae hawl gan gyflogeion amser llawn gael 31 diwrnod o wyliau blynyddol, yn ogystal â 10 diwrnod braint a chyhoeddus. Mae ein cyfres o bolisïau absenoldeb teuluol yn hael, ac mae ein holl bolisïau yn gwbl gynhwysol. Rydym yn rhoi absenoldeb arbennig i gyflogeion anabl ac yn cynnig addasiadau rhesymol i unigolion, o ran gwaith a recriwtio. Ceir cymuned ffyniannus o rwydweithiau a grwpiau staff, timau Iechyd a Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol penodol yn ogystal â Rhaglen Cymorth i Gyflogeion, sydd ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.

**Achrediadau, aelodaeth ac addunedau sefydliadol:**

Fel cyflogwr, rydym yn parhau i feincnodi yn erbyn safonau diwydiant ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r achrediadau, aelodau ac addunedau a ddelir yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Siarter Hil i Gyflogwyr Busnes yn y Gymuned
- Pledge to Be Seen Changing Faces
- Achrediad Hyderus o ran Anabledd Lefel 3 (Arweinydd)
- Aelodau o Employers for Carers
- Cyflogwr sy'n Ystyriol o Endometriosis
- Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall
- Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr
- Achrediad y Rhuban Gwyn
- Addewid Menopos y Gweithle

## Rhwydweithiau Staff

Mae gennym rwydwaith llewyrchus o grwpiau staff sy'n chwarae rôl hollbwysig wrth lunio gweithle cynhwysol. Mae ein chwech rhwydwaith staff yn rhoi llais i gydweithwyr heb gynrychiolaeth ddigonol, yn creu lleoedd i rannu profiadau, ac yn cynnig cymorth gan gymheiriaid. Maent hefyd yn helpu i ddatblygu polisïau ac asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, gan sicrhau bod ein penderfyniadau yn cael eu llywio gan safbwyntiau amrywiol.

Caiff pob rhwydwaith ei gyd-gadeirio gan gydweithwyr sy'n eistedd ar ein Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant strategol, gyda chefnogaeth gan Noddwyr Bwrdd a hyrwyddwyr o'r Uwch Wasanaeth Sifil.

**Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd –** y rhwydwaith cymorth i staff anabl sydd hefyd yn darparu cyngor ar effaith polisïau, arferion ac amgylcheddau cyflogaeth ar staff anabl, yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd.

**Materion y Meddwl –** y rhwydwaith ar gyfer cydweithwyr sydd â diddordeb mewn iechyd meddwl a llesiant meddyliol, gan gynnwys staff sydd a phrofiad personol neu sy'n rheoli neu'n gofalu am rywun y mae iechyd meddwl yn effeithio arnynt.

**Rhwydwaith y Staff Ethnig Lleiafrifol –** y rhwydwaith ar gyfer staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n darparu sicrwydd cydraddoldeb ar gyfer polisïau ac yn helpu aelodau i wneud eu profiad o weithio i Lywodraeth Cymru yn un sydd o fudd i'n cymunedau ac sy'n datblygu unigolion. Mae'r rhwydwaith yn gweithio'n agos gyda ni ar ddod yn sefydliad gwrth-hiliol.

**Y Rhwydwaith Niwroamrywiaeth –** yn cefnogi cydweithwyr niwrowahanol ar draws y sefydliad ac yn gwella dealltwriaeth o'r modd y mae niwrogynhwysiant yn gwella'r gweithle i bawb.

**PRISM –** y rhwydwaith staff cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd sy'n cefnogi staff sy'n uniaethu'n lesbiaidd, hoyw, deurywiol, traws neu amrywiadol ryweddol.

**Menywod Ynghyd –** nodau'r rhwydwaith hwn yw darparu llais unedig ar y materion sy'n wynebu menywod ar draws y sefydliad a sicrhau cydraddoldeb rhywedd.

Ceir hefyd nifer o grwpiau cymorth cymheiriaid sy'n cwmpasu amrywiaeth o ddiddordebau a phrofiadau a rennir.

## Partneriaeth Gymdeithasol

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynnwys staff mewn materion sy'n effeithio ar eu swyddi a'u bywyd gwaith. Mae'n gwneud hynny, yn bennaf, drwy ei hundebau llafur cydnabyddedig – PCS, Prospect a FDA.

Mae undebau llafur Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gefnogi sefydliad effeithiol, effeithlon, amrywiol a chynhwysol er mwyn helpu Gweinidogion i gyflawni eu blaenoriaethau i Gymru. I wneud hyn, mae rheolwyr ac undebau llafur Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol er mwyn:

- cyfrannu safbwyntiau undebau llafur a'r cyflogwr at y gwaith o ddatblygu strategaeth a pholisi'r gweithlu a'u rhoi ar waith
- cynnal trafodaeth adeiladol ar strategaethau a pholisïau newydd ar gam ffurfiannol
- hyrwyddo cyfathrebu effeithiol rhwng partneriaid

Mae'r ddwy ochr yn cydnabod mai gweithio gyda'i gilydd ar sail cydweithrediad, tryloywder ac ymddiriedaeth ar y ddwy ochr yw'r ffordd orau o alluogi'r sefydliad i addasu i amgylchiadau newydd a chyfyngiadau ariannol er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn parhau i lwyddo, gan weithio i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar yr un pryd.

Mae gwaith partneriaeth effeithiol yn cynnig buddiannau pwysig i'r ddwy ochr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- penderfyniadau gwell
- dealltwriaeth well ar y ddwy ochr o'r heriau a'u heffaith ar y gweithlu
- cronfa eang o brofiad a syniadau i ddatblygu strategaeth a pholisi'r gweithlu
- gweithredu strategaeth a pholisi'r gweithlu yn fwy effeithiol
- arferion cyflogaeth o safon uchel
- ymgysylltiad ac ymrwymiad gwell o fewn y gweithlu

**Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r rôl bwysig y mae ei hundebau llafur cydnabyddedig yn ei chwarae wrth hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithle drwy:**

Hyrwyddo hawliau cyfartal i bob aelod drwy geisio negodi polisïau a gweithdrefnau sy'n datblygu cydraddoldeb ac nad ydynt yn rhoi un grŵp o dan anfantais anghymesurChallenging instances of harassment and discrimination and ensuring complaints are dealt with effectively.

Herio achosion o aflonyddu a gwahaniaethu a sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn effeithiol.

Creu awyrgylch cefnogol yn y gwaith lle mae pob aelod yn teimlo y gall gymryd rhan, bod ei safbwyntiau yn bwysig a'i bod yn ddiogel iddo ddweud pan ei fod yn amau achosion o aflonyddu neu wahaniaethu yn y gwaith, heb boeni am ganlyniadau negyddol.

Gweithio fel model rôl wrth drin pawb yn deg.

## Arolwg Pobl

Mae Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yn adnodd allweddol er mwyn deall profiadau ac ymgysylltiad staff ar draws y sefydliad. Yng nghyd-destun cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, mae'n rhoi gwybodaeth werthfawr am i ba raddau y mae ein diwylliant yn teimlo ei fod yn gynhwysol, a yw cydweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u cefnogi, a ble y gallai rhwystrau fodoli. Mae'r data yn ein helpu i nodi tueddiadau, mesur cynnydd yn erbyn ein hamcanion o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a llunio camau gweithredu sy'n creu gweithle teg a chroesawgar i bawb.

Yn Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd yr arolwg rhwng mis Medi a mis Hydref 2024 a chafwyd cyfradd ymateb o 66%.

### Sgôr Ymgysylltiad Cyflogeion

- Cafodd Llywodraeth Cymru Sgôr Ymgysylltiad Cyflogeion o 67%, sydd wedi cynyddu ychydig o 66% yn 2023. Roedd gan y sefydliad lefelau ymgysylltiad uwch na Gwasanaeth Sifil y DU (64%) hefyd.
- Staff ethnig leiafrifol a oedd yn cyfrif am y sgôr ymgysylltiad uchaf (71%) o blith y grwpiau cydraddoldeb allweddol (isod), a staff anabl a nododd y sgôr isaf (65%).
- Gwelsom gynnydd bach mewn lefelau ymgysylltiad (o 1 pwynt canrannol) ar gyfer y rhan fwyaf o'r grwpiau cydraddoldeb allweddol o 2023, ond gwelwyd cynnydd rhywfaint yn fwy mewn ymgysylltiad ar gyfer staff ethnig leiafrifol[3] (4 pwynt canrannol).
- Yn unol â chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol, staff anabl oedd yr unig grŵp cydraddoldeb i nodi sgôr ymgysylltiad is na'u grŵp cymharu dim cydraddoldeb[4] (4 pwynt canrannol yn is na staff nad oeddent yn anabl).
- Nododd staff benywaidd sgôr ymgysylltiad llawer uwch na staff gwrywaidd (5 pwynt canrannol yn uwch).

| Grwpiau Cydraddoldeb Allweddol[5] | | Sgôr Ymgysylltiad Cyflogeion 2024 | Sgôr Ymgysylltiad Cyflogeion 2023 |
|---|---|---|---|
| Ethnigrwydd | Staff ethnig leiafrifol | 71% | 67% |
| | Staff Gwyn | 68% | 67% |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Staff â Chyfeiriadedd Rhywiol Lleiafrifol | 68% | 69% |
| | Staff Strêt / Heterorywiol | 68% | 67% |
| Rhyw[6] | Staff Benywaidd | 70% | 69% |
| | Staff Gwrywaidd | 65% | 65% |
| Anabledd | Staff Anabl | 65% | 64% |
| | Staff Nad Ydynt yn Anabl | 68% | 67% |

3 Rydym yn tueddu i weld amrywiadau mwy mewn sgoriau ar gyfer grwpiau llai.

4 Grwpiau cymharu dim cydraddoldeb yw staff gwyn, staff strêt/heterorywiol, staff gwrywaidd a staff nad ydynt yn anabl.

5 Mae'r sgoriau yn y tabl wedi'u talgrynnu ond mae gwahaniaethau neu newidiadau ar ffurf pwyntiau canrannol yn seiliedig ar ffigurau crai.

6 Roedd sgoriau ar gyfer staff benywaidd/gwrywaidd yn seiliedig ar hunaniaeth rhywedd/rhyw gyfansawdd yn 2023 ond yn seiliedig ar ryw yn 2024, felly dylid cymryd gofal wrth lunio cymariaethau dros amser.

## Cynhwysiant a Thriniaeth Deg

- Cafodd Llywodraeth Cymru sgôr o 86% ar gyfer y thema Cynhwysiant a Thriniaeth Deg, sydd wedi cynyddu ychydig o 85% yn 2023 ac sydd 5 pwynt uwchlaw Gwasanaeth Sifil y DU (81%).
- Yn unol â chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol, staff benywaidd a oedd yn cyfrif am y sgôr uchaf ar gyfer y thema Cynhwysiant a Thriniaeth Deg (89%) o blith y grwpiau cydraddoldeb allweddol, a staff anabl a nododd y sgôr isaf (80%).
- Unwaith eto, yn unol â chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol, nododd y rhan fwyaf o'r grwpiau cydraddoldeb allweddol sgôr is ar gyfer y thema Cynhwysiant a Thriniaeth Deg na'u grŵp cymharu dim cydraddoldeb:
  - Nododd staff anabl sgôr llawer is na'r rhai nad oeddent yn anabl (9 pwynt canrannol yn is).
  - Nododd staff ethnig leiafrifol sgôr llawer is na staff gwyn (5 pwynt canrannol yn is).
- Menywod oedd yr unig grŵp cydraddoldeb a nododd sgôr uwch ar gyfer y thema Cynhwysiant a Thriniaeth Deg na'u grŵp cymharu dim cydraddoldeb (2 bwynt canrannol yn uwch na staff gwrywaidd).
- Nid oedd fawr o newid yn y sgôr ar gyfer y thema Cynhwysiant a Thriniaeth Deg ymhlith y grwpiau cydraddoldeb allweddol dros amser, gyda staff ethnig leiafrifol a staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol yn gweld lleihad bach yn eu sgôr (lleihad o 1 pwynt canrannol yr un) a staff benywaidd a staff anabl yn gweld cynnydd bach yn eu sgôr (cynnydd o 1 pwynt canrannol yr un) o 2023.

| **Grwpiau Cydraddoldeb Allweddol[7]** | | **Sgôr Cynhwysiant a Thriniaeth Deg 2024** | **Sgôr Cynhwysiant a Thriniaeth Deg 2023** |
|---|---|---|---|
| Ethnigrwydd | Lleiafrif Ethnig | 83% | 84% |
| | Staff Gwyn | 88% | 87% |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol | 86% | 87% |
| | Staff Strêt / Heterorywiol | 88% | 88% |
| Rhyw | Staff Benywaidd | 89% | 88% |
| | Staff Gwrywaidd | 87% | 87% |
| Anabledd | Staff Anabl | 80% | 80% |
| | Staff Nad Ydynt yn Anabl | 89% | 89% |

7 Fel y nodir uchod, ffigurau wedi'u talgrynnu yw'r sgoriau yn y tabl, felly maent wedi cael eu talgrynnu i fyny neu i lawr yn dibynnu ar y sgoriau crai. Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau ffigur yn seiliedig ar y gwahaniaeth 'crai' ac yna caiff ei dalgrynnu. Er enghraifft, 86.52 (yn talgrynnu i fyny i 87%), 87.19 (yn talgrynnu i lawr i 87%) a'r gwahaniaeth yw -0.67 sy'n talgrynnu i -1%.

# Atodiad A

## Cynrychiolaeth yn y Gweithle Wedi'i Dadgyfuno

yn ôl Hil, Crefydd/Cred, Anabledd, Cyfeiriadedd Rhywiol a Statws Priodasol

| Hil | Nifer | % |
|---|---|---|
| Arabaidd | * | 0.1 |
| Asiaidd – Bangladeshaidd | 10 | 0.1 |
| Asiaidd – Tsieineaidd | 10 | 0.2 |
| Asiaidd – Indiaidd | 20 | 0.4 |
| Asiaidd – Pacistanaidd | 20 | 0.3 |
| Du – Affricanaidd | 10 | 0.2 |
| Du – Caribïaidd | 10 | 0.1 |
| Sipsiwn a Theithiwr Gwyddelig | * | 0.0 |
| Cymysg – Asiaidd a Gwyn | 20 | 0.4 |
| Cymysg – Du Affricanaidd a Gwyn | 10 | 0.1 |
| Cymysg – Du Caribïaidd a Gwyn | 10 | 0.2 |
| Cefndir Asiaidd arall | 10 | 0.1 |
| Unrhyw Gefndir Du arall | * | 0.0 |
| Grŵp Ethnig Arall | 20 | 0.4 |
| Cefndir Ethnig Cymysg arall | 30 | 0.6 |
| Gwyn | 5,070 | 85.0 |
| Heb ddatgan | 470 | 7.9 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 230 | 3.9 |
| **Cyfanswm[1]** | **5,950** | |

| Crefydd/Cred | Nifer | % |
|---|---|---|
| Agnosticiaeth | 400 | 6.7 |
| Anffyddiaeth | 580 | 9.8 |
| Baha'i | * | 0.0 |
| Bwdhaeth | 10 | 0.2 |
| Cristnogaeth | 2,070 | 34.9 |
| Hindŵaeth | 10 | 0.1 |
| Dyneiddiaeth | 10 | 0.2 |
| Islam | 40 | 0.7 |
| Jainiaeth | * | 0.0 |
| Iddewiaeth | 10 | 0.2 |
| Dim Crefydd | 920 | 15.5 |
| Crefydd arall | 110 | 1.8 |
| Paganiaeth | 10 | 0.2 |
| Rastaffariaeth | * | 0.0 |
| Sikhiaeth | * | 0.1 |
| Taoaeth | * | 0.0 |
| Heb ddatgan | 520 | 8.8 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1,250 | 20.9 |
| **Cyfanswm[1]** | **5,950** | |

| Anabledd | Nifer | % |
|---|---|---|
| Amhariad ar y Clyw (heb gyflwr arall) | 30 | 0.6 |
| Amhariad ar y Clyw (â chyflwr arall...) | 10 | 0.1 |
| Anawsterau Dysgu (heb gyflwr arall) | 30 | 0.5 |
| Anawsterau Dysgu (â chyflwr arall...) | 10 | 0.2 |
| Salwch Meddwl (heb gyflwr arall) | 40 | 0.6 |
| Salwch Meddwl (â chyflwr arall...) | 20 | 0.3 |
| Amhariad ar Symudedd (heb gyflwr arall) | 30 | 0.4 |
| Amhariad ar Symudedd (â chyflwr arall...) | 30 | 0.5 |
| Ddim yn Anabl | 5,030 | 84.7 |
| Anabledd Arall / Anhysbys | 90 | 1.5 |
| Anawsterau Cydsymud Corfforol (heb gyflwr arall) | * | 0.0 |
| Galluedd Corfforol Is (heb gyflwr arall) | 20 | 0.3 |
| Galluedd Corfforol Is (â chyflwr arall...) | 10 | 0.2 |
| Amhariad ar y Lleferydd (heb gyflwr arall) | * | 0.0 |
| Amhariad ar y Golwg (heb gyflwr arall) | 20 | 0.3 |
| Amhariad ar y Golwg (â chyflwr arall...) | 10 | 0.1 |
| Heb ddatgan | 560 | 9.4 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 20 | 0.3 |
| **Cyfanswm[1]** | **5,950** | |

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Nifer | % |
|---|---|---|
| Deurywiol | 80 | 1.3 |
| Dyn Hoyw | 100 | 1.7 |
| Menyw Hoyw / Lesbiaidd | 50 | 0.9 |
| Heterorywiol / Strêt | 4,470 | 75.1 |
| Cyfeiriadedd Rhywiol Arall | 30 | 0.6 |
| Heb ddatgan | 580 | 9.8 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 640 | 10.7 |
| **Cyfanswm[1]** | **5,950** | |


| Statws Priodasol | Nifer | % |
|---|---|---|
| Partneriaeth Sifil | 30 | 0.6 |
| Cyd-fyw | 60 | 1.1 |
| Wedi Ysgaru | 270 | 4.5 |
| Wedi Priodi | 2,840 | 47.8 |
| Partneriaeth Gofrestredig | 300 | 5.0 |
| Wedi Gwahanu | 10 | 0.2 |
| Sengl | 1,550 | 26.1 |
| Gweddw | 30 | 0.5 |
| Heb ddatgan | 850 | 14.4 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 0 | 0.0 |
| **Cyfanswm[1]** | **5,950** | |

Drwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf ac mae ffigurau islaw 5 wedi'u hatal a'u dynodi â*. Mae canrannau wedi'u talgrynnu. [1]Efallai na fydd ffigurau yn gwneud cyfanswm oherwydd talgrynnu.


# Atodiad B

## Data ar Ymadawyr yn ôl Nodwedd Warchodedig


| Rhyw | Nifer | % |
|---|---|---|
| Menywod | 240 | 54.3 |
| Dynion | 200 | 46.7 |
| **Cyfanswm[1]** | **440** | |





| Ystod Oedran | Nifer | % |
|---|---|---|
| 16-24 | 10 | 2.7 |
| 25-29 | 30 | 5.7 |
| 30-34 | 30 | 6.6 |
| 35-39 | 30 | 6.1 |
| 40-44 | 30 | 6.8 |
| 45-49 | 40 | 8.4 |
| 50-54 | 30 | 6.6 |
| 55-59 | 50 | 11.6 |
| 60-64 | 110 | 25.9 |
| 65+ | 90 | 19.6 |
| **Cyfanswm[1]** | **440** | |





| Anabledd | Nifer | % |
|---|---|---|
| Anabl | 40 | 8.9 |
| Ddim yn Anabl | 340 | 77.3 |
| Heb ddatgan | 60 | 13.4 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * | 0.5 |
| **Cyfanswm[1]** | **440** | |




| Hil | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ethnigrwydd Arall | 10 | 2.7 |
| Gwyn | 360 | 81.6 |
| Heb ddatgan | 60 | 12.7 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * | 3.0 |
| **Cyfanswm[1]** | **440** | |





| Crefydd/Cred | Nifer | % |
|---|---|---|
| Cristnogaeth | 180 | 38.8 |
| Crefydd/Cred Arall | 80 | 17.7 |
| Dim Crefydd/Cred | 50 | 10.2 |
| Heb ddatgan | 60 | 13.0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 90 | 19.3 |
| **Cyfanswm[1]** | **440** | |





| Cyfeiriadedd Rhywiol | Nifer | % |
|---|---|---|
| Heterorywiol / Strêt | 320 | 71.8 |
| Cyfeiriadedd Rhywiol Arall | 10 | 2.7 |
| Heb ddatgan | 70 | 15.2 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 50 | 10.2 |
| **Cyfanswm[1]** | **440** | |





| Mamolaeth/ Beichiogrwydd* | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ie | 0 | 0.0 |
| Na | 440 | 100.0 |
| **Cyfanswm[1]** | **440** | |



| Statws Priodasol | Nifer | % |
|---|---|---|
| Wedi Priodi/Partneriaeth Sifil | 210 | 47.1 |
| Sengl | 90 | 20.9 |
| Statws Arall | 50 | 11.6 |
| Heb ddatgan | 90 | 20.5 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 0 | 0.0 |
| Cyfanswm[1] | 440 | |




| Ailbennu Rhywedd (yr un peth â'r rhyw a bennwyd adeg geni) | Nifer | % |
|---|---|---|
| Na | * | 0.2 |
| Ie | 200 | 46.1 |
| Heb ddatgan | 230 | 51.1 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 10 | 2.5 |
| Cyfanswm[1] | 440 | |





Drwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf ac mae ffigurau islaw 5 wedi'u hatal a'u dynodi â*. Mae canrannau wedi'u talgrynnu. [1]Efallai na fydd ffigurau yn gwneud cyfanswm oherwydd talgrynnu.

## Atodiad C


# Data ar Gwynion Cyflogaeth ac Achosion Disgyblu (gan gynnwys achosion Urddas yn y Gwaith) yn ôl Nodwedd Warchodedig

Mae nifer y cwynion cyflogaeth a'r achosion disgyblu wedi cael eu grwpio. Oherwydd y niferoedd bach dan sylw, byddai gwahanu nifer y cwynion cyflogaeth ac achosion disgyblu yn peri i'r data gael eu cadw'n ôl a'u dynodi ag*.


| Rhyw | Nifer | % |
|---|---|---|
| Menywod | 10 | 56.0 |
| Dynion | 10 | 44.0 |
| **Cyfanswm[1]** | **30** | |





| Ystod Oedran | Nifer | % |
|---|---|---|
| 16-24 | 0 | 0 |
| 25-29 | * | 8.0 |
| 30-34 | * | 12.0 |
| 35-39 | * | 12.0 |
| 40-44 | 0 | 0.0 |
| 45-49 | * | 4.0 |
| 50-54 | 10 | 20.0 |
| 55-59 | 10 | 20.0 |
| 60-64 | * | 16.0 |
| 65+ | * | 8.0 |
| **Cyfanswm[1]** | **30** | |





| Anabledd | Nifer | % |
|---|---|---|
| Anabl | * | 12.0 |
| Ddim yn Anabl | 20 | 68.0 |
| Heb ddatgan | 10 | 20.0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 0 | 0.0 |
| **Cyfanswm[1]** | **30** | |




| Hil | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ethnigrwydd Arall | * | 4.0 |
| Gwyn | 20 | 72.0 |
| Heb ddatgan | * | 12.0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * | 12.0 |
| **Cyfanswm[1]** | **30** | |




| Crefydd/Cred | Nifer | % |
|---|---|---|
| Cristnogaeth | 10 | 48.0 |
| Crefydd/Cred Arall | * | 16.0 |
| Dim Crefydd/Cred | * | 12.0 |
| Heb ddatgan | * | 12.0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * | 12.0 |
| **Cyfanswm[1]** | **30** | |





| Cyfeiriadedd Rhywiol | Nifer | % |
|---|---|---|
| Heterorywiol / Strêt | 20 | 60.0 |
| Cyfeiriadedd Rhywiol Arall | * | 4.0 |
| Heb ddatgan | * | 12.0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 10 | 24.0 |
| **Cyfanswm[1]** | **30** | |





| Mamolaeth/ Beichiogrwydd* | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ie | 0 | 0.0 |
| Na | 30 | 100.0 |
| **Cyfanswm[1]** | **30** | |



| Statws Priodasol | Nifer | % |
|---|---|---|
| Wedi Priodi/Partneriaeth Sifil | 10 | 40.0 |
| Sengl | 10 | 32.0 |
| Statws Arall | * | 12.0 |
| Heb ddatgan | * | 16.0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 0 | 0.0 |
| **Cyfanswm[1]** | **30** | |




| Ailbennu Rhywedd (yr un peth â'r rhyw a bennwyd adeg geni) | Nifer | % |
|---|---|---|
| Na | 0 | 0.0 |
| Ie | 10 | 52.0 |
| Heb ddatgan | 10 | 36.0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * | 12.0 |
| **Cyfanswm[1]** | **30** | |




Drwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf ac mae ffigurau islaw 5 wedi'u hatal a'u dynodi â*. Mae canrannau wedi'u talgrynnu. [1]Efallai na fydd ffigurau yn gwneud cyfanswm oherwydd talgrynnu.

# Atodiad D

## Bylchau Cyflog

### Bwlch Cyflog Rhywedd

Mae'r ffigurau isod yn seiliedig ar gyfanswm o 5,800* o staff: sy'n cynnwys 3,550* o fenywod (61%) a 2,250* o ddynion (39%).

**Bwlch Cyflog Rhywedd Llywodraeth Cymru: Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2025**

| | Cyflog cyfartalog (cymedrig) menywod | Cyflog cyfartalog (cymedrig) dynion | Bwlch cyflog rhywedd cymedrig | Cyflog canolrifol menywod | Cyflog canolrifol dynion | Bwlch cyflog rhywedd canolrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog | £48,545 | £50,956 | 4.73% | £43,759 | £45,974 | 4.82% |
| Cyflog yr awr | £25.23 | £26.48 | | £22.74 | £23.90 | |

**Bwlch Cyflog Rhywedd yn ôl Gradd: Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2025**

| | | Cyflog cyfartalog (cymedrig) menywod | Cyflog cyfartalog (cymedrig) dynion | Bwlch cyflog rhywedd cymedrig | Cyflog canolrifol menywod | Cyflog canolrifol dynion | Bwlch cyflog rhywedd canolrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Tîm | Cyflog | £27,749 | £27,861 | 0.41% | £28,246 | £28,246 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £14.42 | £14.48 | | £14.68 | £14.68 | |
| EO | Cyflog | £32,699 | £32,828 | 0.39% | £33,748 | £33,748 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £17.00 | £17.06 | | £17.54 | £17.54 | |
| HEO | Cyflog | £41,641 | £41,513 | -0.31% | £43,759 | £43,759 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £21.64 | £21.58 | | £22.74 | £22.74 | |
| SEO | Cyflog | £52,013 | £52,031 | 0.03% | £54,431 | £54,431 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £27.03 | £27.04 | | £28.29 | £28.29 | |
| Gradd 7 | Cyflog | £67,865 | £68,217 | 0.52% | £70,450 | £70,450 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £35.27 | £35.46 | | £36.62 | £36.62 | |
| Gradd 6 | Cyflog | £81,900 | £82,807 | 1.10% | £84,882 | £84,882 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £42.57 | £43.04 | | £44.12 | £44.12 | |
| SCS | Cyflog | £97,765 | £101,383 | 3.57% | £92,537 | £92,537 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £50.81 | £52.69 | | £48.10 | £48.10 | |

## Bwlch Cyflog Rhywedd yn ôl Grŵp Gradd: Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2025

| | | Cyflog cyfartalog (cymedrig) menywod | Cyflog cyfartalog (cymedrig) dynion | Bwlch cyflog rhywedd cymedrig | Cyflog canolrifol menywod | Cyflog canolrifol dynion | Bwlch cyflog rhywedd canolrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Tîm a EO | Cyflog | £30,541 | £30,961 | 1.36% | £29,657 | £30,749 | 3.55% |
| | Cyflog yr awr | £15.87 | £16.09 | | £15.41 | £15.98 | |
| HEO a SEO | Cyflog | £46,936 | £47,004 | 0.15% | £45,974 | £45,974 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £24.39 | £24.43 | | £23.90 | £23.90 | |
| Gradd 7, Gradd 6 a SCS | Cyflog | £73,550 | £75,938 | 3.14% | £70,450 | £70,450 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £38.23 | £39.47 | | £36.62 | £36.62 | |

## Bwlch Cyflog Ethnigrwydd

Mae'r ffigurau isod yn seiliedig ar gyfanswm o 5,190* o staff: 180* o staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (3%) a 5,020* o staff Gwyn (97%). Ni chafodd 610* o staff nad ydynt wedi datgan eu hethnigrwydd ar y system adnoddau dynol (11% o holl staff Llywodraeth Cymru) eu cynnwys.

### Bwlch Cyflog Ethnigrwydd Llywodraeth Cymru: Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2025

| | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff ethnig leiafrifol | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff Gwyn | Bwlch cyflog ethnigrwydd cymedrig | Cyflog canolrifol staff ethnig leiafrifol | Cyflog canolrifol staff Gwyn | Bwlch cyflog ethnigrwydd canolrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog | £47,911 | £49,974 | 4.13% | £43,759 | £45,974 | 4.82% |
| Cyflog yr awr | £24.90 | £25.97 | | £22.74 | £23.90 | |

## Bwlch Cyflog Ethnigrwydd yn ôl Grŵp Gradd: Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2025

| | | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff ethnig leiafrifol | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff Gwyn | Bwlch cyflog ethnigrwydd cymedrig | Cyflog canolrifol staff ethnig leiafrifol | Cyflog canolrifol staff Gwyn | Bwlch cyflog ethnigrwydd canolrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Tîm a EO | Cyflog | £31,165 | £31,007 | -0.51% | £30,749 | £30,749 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £16.20 | £16.12 | | £15.98 | £15.98 | |
| HEO a SEO | Cyflog | £46,052 | £47,036 | 2.09% | £44,867 | £45,974 | 2.41% |
| | Cyflog yr awr | £23.94 | £24.45 | | £23.32 | £23.90 | |
| Gradd 7, Gradd 6 a SCS | Cyflog | £75,817 | £74,734 | -1.45% | £70,450 | £70,450 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £39.41 | £38.84 | | £36.62 | £36.62 | |

## Bwlch Cyflog Anabledd

Mae'r ffigurau isod yn seiliedig ar gyfanswm o 5,350* o staff: nododd 380* eu bod yn anabl (7%) a nododd 4,970* nad oeddent yn anabl (93%). Ni chafodd 460* o staff nad ydynt wedi datgan a ydynt yn anabl ar y system adnoddau dynol (8% o holl staff Llywodraeth Cymru) eu cynnwys.

### Bwlch Cyflog Anabledd Llywodraeth Cymru: Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2025

| | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff anabl | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff nad ydynt yn anabl | Bwlch cyflog anabledd cymedrig | Cyflog canolrifol staff anabl | Cyflog canolrifol staff nad ydynt yn anabl | Bwlch cyflog anabledd canolrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog | £47,870 | £50,223 | 4.69% | £43,759 | £45,974 | 4.82% |
| Cyflog yr awr | £24.88 | £26.10 | | £22.74 | £23.90 | |

### Bwlch Cyflog Anabledd yn ôl Grŵp Gradd: Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2025

| | | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff anabl | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff nad ydynt yn anabl | Bwlch cyflog anabledd cymedrig | Cyflog canolrifol staff anabl | Cyflog canolrifol staff nad ydynt yn anabl | Bwlch cyflog anabledd canolrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Tîm a EO | Cyflog | £30,663 | £31,106 | 1.42% | £29,657 | £30,749 | 3.55% |
| | Cyflog yr awr | £15.94 | £16.17 | | £15.41 | £15.98 | |
| HEO a SEO | Cyflog | £46,064 | £47,121 | 2.24% | £43,759 | £45,974 | 4.82% |
| | Cyflog yr awr | £23.94 | £24.49 | | £22.74 | £23.90 | |
| Gradd 7, Gradd 6 a SCS | Cyflog | £74,577 | £74,888 | 0.42% | £70,450 | £70,450 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £38.76 | £38.92 | | £36.62 | £36.62 | |

## Bwlch Cyflog Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae'r ffigurau isod yn seiliedig ar gyfanswm o 4,670* o staff: nododd 260* fod ganddynt gyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol (6%) a nododd 4,410* eu bod yn heterorywiol (94%). Ni chafodd 1,130* o staff nad ydynt wedi datgan eu cyfeiriadedd rhywiol ar y system adnoddau dynol (20% o holl staff Llywodraeth Cymru) eu cynnwys.

### Bwlch Cyflog Cyfeiriadedd Rhywiol Llywodraeth Cymru: Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2025

| | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff heterorywiol | Bwlch cyflog cyfeiriadedd rhywiol cymedrig | Cyflog canolrifol staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol | Cyflog canolrifol staff heterorywiol | Bwlch cyflog cyfeiriadedd rhywiol canolrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog | £51,104 | £49,944 | -2.32% | £48,135 | £45,974 | -4.70% |
| Cyflog yr awr | £26.56 | £25.96 | | £25.02 | £23.90 | |

### Bwlch Cyflog Cyfeiriadedd Rhywiol yn ôl Grŵp Gradd: Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2025

| | | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff heterorywiol | Bwlch cyflog cyfeiriadedd rhywiol cymedrig | Cyflog canolrifol staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol | Cyflog canolrifol staff heterorywiol | Bwlch cyflog cyfeiriadedd rhywiol canolrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Tîm a EO | Cyflog | £30,889 | £31,101 | 0.68% | £30,749 | £30,749 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £16.05 | £16.17 | | £15.98 | £15.98 | |
| HEO a SEO | Cyflog | £46,793 | £47,054 | 0.55% | £45,974 | £45,974 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £24.32 | £24.46 | | £23.90 | £23.90 | |
| Gradd 7, Gradd 6 a SCS | Cyflog | £74,013 | £74,914 | 1.20% | £70,450 | £70,450 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £38.47 | £38.94 | | £36.62 | £36.62 | |

# Atodiad E

## Adduned Menywod yn y Gyfraith

### Adduned Menywod yn y Gyfraith

Ymrwymiad i gydweithio i harneisio grym cydraddoldeb rhywedd i drawsnewid busnes y gyfraith yw'r adduned hon.

**Mae fy sefydliad yn addo hyrwyddo cydraddoldeb rhywedd drwy:**

- Enwi o leiaf un aelod o'n tîm uwch-arweinwyr/pwyllgor rheoli sy'n atebol am amrywiaeth a chynhwysiant rhywedd.
- Pennu targedau penodol o ran rhywedd ar lefel arweinwyr ac ar lefelau eraill fel y bo'n briodol.
- Ystyried y canlyniadau gwahanol i grwpiau gwahanol o fenywod ar bob lefel o'r sefydliad e.e. eu cefndir, eu hunaniaeth a'u hystod o brofiadaus.
- Datblygu cynllun gweithredu i sicrhau cydraddoldeb rhywedd yn ein timau o uwch-reolwyr ac uwch-arweinwyr.
- Ymrwymo ar lefel uwch i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail rhyw, bwlio ac aflonyddu rhywiol yn y gweithle.
- Ymrwymo i fynd i'r afael â diwylliant a thuedd yn y gweithle a all arwain at ganlyniadau gwahanol yn y gweithle.
- Cyhoeddi ein hadduned a'n targedau a'n cynllun gweithredu.

**Enw'r Sefydliad / Eiriolwr:**
Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru

**Sector/Diwydiant:** Llywodraeth/Sector Cyhoeddus

**Uwch-arweinydd sy'n atebol am ymrwymiad:**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol yn Llywodraeth Cymru, sef Nia James ar hyn o bryd ar sail dros dro a Stephanie Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol

**Rhowch grynodeb o'r gweithgareddau rydych yn bwriadu eu cyflawni er mwyn cefnogi'r adduned a sut y caiff cynnydd ei fonitro.**

Mae Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru yn parhau i arwain y ffordd yn y proffesiwn cyfreithiol o ran cydraddoldeb rhywedd, a cheir tystiolaeth o hyn yn yr ystadegau canlynol:

Ar lefel yr adran, y rhaniad o ran rhywedd yw 71.2% o fenywod, 28.8% o ddynion.

Ar lefel uwch-reolwyr (1 Cyfarwyddwr ac 8 Dirprwy Gyfarwyddwr), y rhaniad o ran rhywedd yw 66.66% (dwy ran o dair) o fenywod, 33.33% (un rhan o dair) o ddynion, ynghyd â Chyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Cyfreithiol, Nia James, menyw. Y Cyfarwyddwr yw Pennaeth y Proffesiwn Cyfreithiol yn Llywodraeth Cymru hefyd.

Ar lefel uwch-gyfreithwyr/arweinwyr tîm (Gradd 6) y rhaniad yw 66.66% (dwy ran o dair) o fenywod, 33.33% o ddynion.

O ran yr addunedau:

1. Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol yn parhau i fod yn atebol am amrywiaeth rhywedd a chynhwysiant yn Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru. Bydd holl aelodau Bwrdd Rheoli'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn parhau i hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth, gan gynnwys drwy fod yn aelodau o'r rhwydweithiau staff.

2. Mae targedau penodol o ran rhywedd wedi cael eu pennu a'u cyflawni yn Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru. Rydym yn ymrwymedig i gynnal cydraddoldeb rhywedd.

3. Mae gan Lywodraeth Cymru Rwydwaith Menywod sy'n ceisio dwyn pobl o gefndiroedd a meysydd gwahanol yn Llywodraeth Cymru ynghyd i rannu eu profiadau. Mae'n annog twf personol ac mae'n annog menywod i helpu ei gilydd i gyrraedd eu llawn botensial.

   Nod y Rhwydwaith Menywod yw rhoi llais unedig ar y materion y mae menywod yn Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu a gweithio tuag at sicrhau cydbwysedd rhywedd drwy gynnal digwyddiadau rhwydweithio a hyfforddiant a rhoi cyfleoedd datblygu i'r aelodau.

   Hefyd, gwahoddir cyfreithwragedd o gefndiroedd ethnig leiafrifol i gymryd rhan yn rhaglen 'Ethnic Minority into Leadership' ehangach y sector cyhoeddus, sy'n darparu amrywiaeth o ddigwyddiadau hyfforddiant ac ymgysylltu diddorol a chyfleoedd ar gyfer datblygiad personol, gan gynnwys cyfleoedd STEP.

   Gall cyfreithwyr benywaidd yn Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru fanteisio ar nifer o gyrsiau datblygu sydd wedi'u hanelu at fenywod o bob cefndir yn y sefydliad, e.e. Menywod fel uwch-arweinwyr, gweithdy Dylanwad a Gwydnwch, gweithdy Dewrder a Phresenoldeb, y mae llawer ohonynt yn cael eu cynnal gan Grŵp Whitehall a Diwydiant gyda'r nod o helpu menywod i oresgyn rhwystrau, adeiladu rhwydweithiau ac arwain fel yr hoffent ei wneud.

   Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu rhaglen mentora o chwith, wedi'i thargedu at grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ym mhob rhan o'r sefydliad, gan gynnwys menywod o gefndiroedd gwahanol.

4. Mae Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynnal cydraddoldeb rhywedd yn ei thimau o uwch-reolwyr ac uwch-arweinwyr.

5. Mae'r Tîm Uwch-reolwyr yn ymrwymedig i fynd i'r afael ag unrhyw fath o wahaniaethu, bwlio ac aflonyddu yn y gweithle, ac mae polisïau cadarn ar waith yn hyn o beth. Mae gan Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu i fynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol, ac anogir pob aelod o staff i roi gwybod am ymddygiad annerbyniol. Mae swyddog o'r tu allan i Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru wedi cael ei benodi yn unigolyn annibynnol y gall aelodau o staff yr Adran fynd ato os bydd ganddynt unrhyw bryderon ac nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus i godi'r pryderon hynny'n uniongyrchol yn yr Adran. Mae Rhaglen Cymorth i Gyflogeion ar waith hefyd sy'n galluogi staff i gael sgyrsiau cyfrinachol â chynghorwyr annibynnol sydd wedi'u hyfforddi.

6. Mae polisïau gweithio'n glyfar a phecyn TGCh i hwyluso patrymau gweithio hyblyg ar waith er mwyn creu diwylliant hyblyg i bawb sy'n ystyried anghenion a phatrymau gweithio gwahanol. Mae gan bob tîm Siarter Tîm i sicrhau y caiff anghenion pob aelod o'r tîm eu hadlewyrchu yn nhrefniadau gweithio tîm a bod hynny'n parchu anghenion unigol pobl.

   Mae pob aelod o staff yn dilyn hyfforddiant ar-lein ar ragfarn ddiarwybod, ac mae'r bwrdd rheoli yn cael hyfforddiant wyneb i wyneb.

   Anogwyd pob aelod o staff i sefyll Prawf IQ Rhywedd Prifysgol Harvard.

7. Caiff manylion am adduned Cymdeithas y Cyfreithwyr a data cysylltiedig eu cyhoeddi fel rhan o'r Adroddiad Cydraddoldeb Cyflogwr a fydd yn ymddangos ar wefan allanol Llywodraeth Cymru.

8. Pennir cyflogau yn Llywodraeth Cymru yn ganolog, ac mae'r broses wedi'i llywio gan y Gwasanaeth Sifil ehangach.